Ysgol Brynrefail

Llanrug,
Caernarfon,
Gwynedd.
LL55 4AD

Pennaeth/Headteacher:
Mrs Ellen Williams BA.
☎(01286) 672381
(01286) 672066
swyddfa@brynrefail.gwynedd.sch.uk
www.brynrefail.gwynedd.sch.uk

9fed Ebrill 2018

Annwyl Rieni/Warcheidwaid,

Pleser yw cael ysgrifennu atoch i gyflwyno fy hun fel Pennaeth newydd Ysgol Brynrefail. Mae'n fraint cael y cyfle i arwain yr ysgol arbennig a llwyddiannus hon. Gallaf eich sicrhau y byddaf yn ymdrechu i sicrhau bod pob plentyn yn cael yr addysg orau y gallwn ei gynnig iddynt yma yn yr ysgol er mwyn iddynt oll gyflawni eu potensial a'u dyheadau personol. Anelwn i gynnig hynny mewn amgylchedd cefnogol a hapus lle mae safonau ymddygiad a pharch yn uchel. Mae'n bwysig i mi fod plant a phobl ifanc yn cael cyfleoedd ganom i ddatblygu i fod yn unigolion hyderus sydd yn barod ar gyfer byd gwaith a bywyd ar ôl gadael yr ysgol. Byddwn yn ceisio annog pob disgybl i ddatblygu hunan-barch ac agwedd gadarnhaol a chyfrifol at fywyd yn gyffredinol. Mae gan yr ysgol werthoedd gwaith cryf a'r nod yw annog ein holl ddisgyblion i wneud eu gorau glas bob amser. Er mwyn i'n disgyblion deimlo yn ddiogel, yn hapus ac i lwyddo yn yr ysgol mae'n hanfodol bod ganom bartneriaeth effeithiol hefo'r cartref, ac i'r pwrpas hwn rwyf yn awyddus iawn i gryfhau'r cyswllt gyda rhieni. Byddaf yn cynnig sesiynau unigol gyda rhieni bob hanner tymor ble fydd cyfle, pe dymunir, i chi fy nghyfarfod i drafod materion yn ymwneud gyda'ch plentyn neu unrhyw awgrymiadau neu syniadau am sut y gallwn ddatblygu neu wella ein darpariaeth. Bydd y cyntaf o'r rhain yn cael ei gynnig Dydd Llun, Ebrill 30ain, rhwng 3:00-5:00pm. Gallwch wneud apwyntiad trwy gysylltu gyda phrif swyddfa'r ysgol ar 01286 672381. Hefyd, byddwn yn cysylltu yn nes ymlaen yn y flwyddyn er mwyn holi eich barn am yr addysg yr ydym yn ei gynnig yn Ysgol Brynrefail ar ffurf holiaduron. Pe byddech yn awyddus i fod yn rhan o grŵp ffocws rhieni er mwyn cynnig eich syniadau, a fyddai modd os gwelwch yn dda i chi roi gwybod i aelodau o staff gweinyddol y swyddfa ar y rhif uchod.

Wrth gydweithio hefo chi'r rhieni gallwn sicrhau'r cyfleoedd gorau ar gyfer eich plentyn. Edrychaf ymlaen i gydweithio hefo chi yn y dyfodol.

Ellen Williams
Pennaeth